| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD: | **28 MEHEFIN 2018** |
| TEITL: | **RHAGLEN GYFALAF 2017/18 –<br>ADOLYGIAD DIWEDD BLWYDDYN** |
| PWRPAS: | **ADRODDIAD MONITRO AR WARIANT AC ARIANNU'R RHAGLEN GYFALAF** |
| GWEITHREDIAD: | **DERBYN YR WYBODAETH, AC YSTYRIED Y RISGIAU YN YMWNEUD Â'R RHAGLEN GYFALAF** |
| SWYDDOG CYSWLLT: | **DAFYDD L EDWARDS, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD PEREDUR JENKINS** |

---

**1.** Cyflwynwyd yr adroddiad atodol (adolygiad diwedd blwyddyn o'r rhaglen gyfalaf) i'r Cabinet ar 22 Mai ar gyfer penderfyniadau ynglŷn â'r rhaglen ddiwygiedig a'i ariannu.

**2.** Y drefn yn arferol yw ein bod yn cyflwyno'r adroddiad Cabinet i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, i'w graffu ynghyd â phenderfyniad perthnasol cyfarfod 22 Mai o'r Cabinet sydd ar y tudalen dilynol.

**3.** Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu nodi'r sefyllfa ac unrhyw risgiau yng nghyswllt rhaglen gyfalaf y Cyngor, ystyried penderfyniad y Cabinet, a sylwebu fel bo angen.